

Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol a SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig**. Mae'r safon yma'n ymwneud â rhywun proffesiynol o faes trin gwallt sy'n darparu technegau pyrmio uwch er mwyn creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, y polisiau, y gweithdrefnau a'r cyfarwyddyd am yr arfer orau. Cyngorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda gofynion cymorth cyntaf yn unol â deddfwriaeth a pholisiau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

Y prif ddeilliannau yw:

1. creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn
2. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwydddebau a chanllawiau
3. trafod a darganfod amcanion yr unigolyn a'r canlyniadau a ddymunir, er mwyn cael y wybodaeth ar gyfer y cynllun gwasanaeth pyrmio, i gynnwys:
 - 3.1 siap anatomegol y pen, yr wyneb a siap y corf
 - 3.2 hanes triniaethau
 - 3.3 dewisiadau triniaeth amgen
4. gwneud dadansoddiad o'r gwallt a chroen y pen, i gynnwys:
 - 4.1 **dosbarthiad cyrls y gwallt**
 - 4.2 **nodweddion y gwallt ***
 - 4.3 ***stad y gwallt**
 - 4.4 cyflwr croen y pen
 - 4.5 canran o wallt gwyn
 - 4.6 hyd y gwallt
 - 4.7 cyfeiriad y cyrl sydd ei angen
 - 4.8 faint o gyrl gellir ei gael
5. gwneud **profion** er mwyn penderfynu addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth pyrmio, i gynnwys:
 - 5.1 penderfynu os oes angen triniaeth cyn pyrmio er mwyn llyfnhau'r mandylledd cyn y gwasanaeth pyrmio
 - 5.2 penderfynu os oes angen ad-drefnydd cemegol er mwyn meddalw gwallt cyrliog iawn ymlawn llaw cyn y gwasanaeth pyrmio
 - 5.3 cofnodi'r canlyniad a'i gadw yn unol â deddfwriaeth data
6. edrych ar amrywiaeth o **effeithiau pyrmio** y gellir eu cyflawni gyda'r unigolyn gan ddefnyddio cymhorthion gweledol perthnasol, er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer:
 - 6.1 y technegau rhannu a chordeddu
 - 6.2 y **cynnyrch** i'w defnyddio
7. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, ei fod wedi deall y gwasanaeth pyrmio arfaethedig, i gynnwys:
 - 7.1 gwrth weithredoedd
 - 7.2 adweithiau niweidiol
8. sicrhau cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer y gwasanaeth pyrmio
9. paratoi'r unigolyn a'r gwallt yn unol â'r **protocol gwasanaeth pyrmio ***
Triniaeth cyn pyrmio
10. **cribo a rhannu'r gwallt er mwyn paratoi ar gyfer a driniaeth cyn pyrmio**
11. **rhoi'r driniaeth cyn pyrmio ar waith yn unol â'r protocol gwasanaeth pyrmio**
Gwasanaeth pyrmio
12. **cribo a rhannu'r gwallt yn unol â'r protocol gwasanaeth pyrmio uwch**
13. **dewis maint y gwialenni pyrmio a phapurau terfyn a'u doddi nhw gan ddefnyddio**
***technegau rhannu ac ymgorddeddu** yn unol â'r protocol gwasanaeth pyrmio uwch
14. gwarchod gwallt a chroen pen yr unigolyn yn unol â'r protocol gwasanaeth pyrmio uwch
15. rhoi digon o doddiant pyrmio ar bob gwialen byrmio a monitro'r amser datblygu yn unol â

Darparu technegau pyrmio uwch

chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, i gynnwys:

- 15.1 addasu dulliau o weithio a defnyddio cynnyrch i gwrdd ag anghenion unigolyn sydd â gwallt wedi'i drin yn gemegol
16. gwarchod y gwallt gyda gorchudd a ddefnyddir unwaith yn unol â'r protocol gwasanaeth pyrmio
17. gwneud profion cyrlio rheolaidd er mwyn ailddatgan yr amser datblygiad
18. tynnu'r toddiant pyrmio allan o'r gwallt yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
20. gwarchod gwallt a chroen pen yr unigolyn yn unol â'r protocol gwasanaeth pyrmio uwch
21. paratoi cynnyrch niwtraleiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
22. trwytho pob gwialen pyrmio â thoddiant niwtraleiddio a monitro amser datblygiad yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
23. cael gwared o'r gwialenni mewn modd diogel er mwyn osgoi difrod i'r gwallt a chroen y pen
24. cael gwared o'r toddiant niwtraleiddio o'r gwallt a chroen y pen yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
26. dodi cyflyrwr gwrth-ocsidiol i'r gwallt a chroen y pen er mwyn adfer y cydbwysedd pH a rhwystro'r toddiant niwtraleiddio rhag cael ei ocsideiddio
27. cael gwared o ddŵr gormodol o'r gwallt a chroen y pen gan ddefnyddio tywel
28. dodi triniaeth ar ôl pyrmio er mwyn adfer pH y gwallt
29. cwblhau'r gwasanaeth yn unol â'r protocol gwasanaeth pyrmio uwch, i gynnwys:
 - 29.1 defnyddio technegau gorffen creadigol er mwyn cyflawni'r effaith a ddymunir ar y pyrm
 - 29.2 sicrhau bod yr effaith orffenedig ar y pyrm wrth fodd yr unigolyn ac yn gwella delwedd y salon
30. cadarnhau gyda'r unigolyn ei fod yn fodlon gyda'r canlyniad terfynol
31. monitro iechyd a lles yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth pyrmio
32. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
33. cwblhau cofnodion gwasanaeth yr unigolyn a'u cadw yn unol â deddfwriaeth data
34. defnyddio ymarfer adfyfyriol i werthuso'r gwasanaeth a chymryd camau priodol
35. rhoi **cyfarwyddiadau** a chynghor i'r unigolyn, cyn ac ar ôl y gwasanaeth gwallt
36. cofnodi canlyniad y gwasanaeth pyrmio a'r gwerthusiad ohono

Darparu technegau pyrmio uwch

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau pyrmio a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu

2. pam ei bod yn rhaid i chi gydymffurfio gydag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:

2.1 y cyfrifoldebau drosoch chi eich hun a'ch adeiladau o dan reoliadau trwyddedu yr awdurdod lleol

3. pwysigrwydd ymwneud â, a dogfennu datblygiad proffesiynol parhaus, i gynnwys, polisiau gwybodaeth wedi eu diweddarau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer arfer gorau

4. yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma

5. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r gwasanaeth gwallt, i gynnwys:

5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol a chyfeirio

6. niwed i groen y pen, a'u cyfeirio at weithiwr proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd

7. y mathau o doddiannau pyrmio a ddefnyddir ar gyfer cyrlio'r gwallt a'u cryfderau a'r addasiadau sydd eu hangen, mewn perthynas â'r canlynol:

7.1 dosbarthiad cyrls y gwallt

7.2 cyflwr y gwallt

7.3 stad y gwallt

7.4 cyflwr croen y pen

7. gwallt gwrthasfol

7.6 gwallt wedi ei drin yn gemegol

8. cyfansoddiad cemegol a pH cynnyrch pyrmio a niwtraleiddio

9. yr effeithiau ffisiolegol caiff toddiannau pyrmio a niwtraleiddwyr ar strwythur y gwallt

10. effeithiau alcalin ac asid at lasgroen y gwallt

11. pwysigrwydd cadw at gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn rhwystro anghydnawsedd cynnyrch a pheryglon i iechyd

12. sut gall tymheredd y dŵr a ddefnyddir tra'n cael gwared o doddiant pyrmio benderfynu lefel y cyrl a gaiff ei sicrhau

13. pwysigrwydd defnyddio triniaeth cyn pyrmio er mwyn llyfnhau mandylledd y gwallt cyn gwasanaeth pyrmio

14. pwysigrwydd adfer y cydbwysedd pH ar ôl y prosesau pyrmio a niwtraleiddio

15. pwysigrwydd triniaethau wedi pyrmio i ail gydbwyso gwerth pH y gwallt a'r defnydd ohonynt

16. pam dylid gwneud y pyrmio a'r niwtraleiddio mewn dilyniant arbennig

17. effeithiau niweidiol methu ag adfer gwerth pH y gwallt

18. pwysigrwydd gwneud dadansoddiad o'r gwallt a chroen y pen a sut mae hyn yn effeithio ar y dewis o gynnyrch a thechnegau rhannu ac ymgordeddu i'w defnyddio

19. sut i addasu technegau pyrmio gwallt ar gyfer pob dosbarthiad o'r cyrls

20. sut gall **patrymau twf y gwallt** benderfynu'r technegau rhannu ac ymgordeddu

21. pwysigrwydd gwneud profion a sut gall canlyniadau profion effeithio ar y gwasanaeth pyrmio

22. pam a phryd caiff prawf cyrlio ei wneud

23. sut i adnabod gwallt wedi'i orbrosesu, y risgiau cysylltiedig a'r camau i'w cymryd

24. sut i adnabod trichorrhesis nodosa, y risgiau cysylltiedig a pha gamau i'w cymryd

25. yr offer a'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau pyrmio i bob dosbarthiad o gyrls y

Darparu technegau pyrmio uwch

gwallt, stad o wallt a chyflyrau

26. y mathau o dechnegau rhannu a chordeddu a ddefnyddir i greu effeithiau pyrmio sydd wedi eu personoleiddio a chreadigol

27. pwysigrwydd defnyddio siampŵ gwrth ocsidiol ar y gwallt er mwyn niwtraleiddio'r cynhwysyn gweithgar mewn cynnyrch pyrmio, i gynnwys:

27.1 effeithiau ffisiolegol niwtraleiddiad ar strwythur y gwallt

28. y risgiau sy'n gysylltiedig â phyrmio a niwtraleiddio'r gwallt

29. pwysigrwydd gwarchod croen a chroen pen yr unigolyn rhag cynnyrch pyrmio a niwtraleiddio

30. pwysigrwydd cadw at gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer defnydd diogel ac amseroedd datblygu ar gyfer cynnyrch pyrmio a niwtraleiddio, i gynnwys:

30.1 pwysigrwydd egluro'r teimlad ar groen y pen

31. pam y dylech gribo a rhannu'r gwallt cyn y pyrmio

32. sut i gyflawni gwasanaeth pyrmio, i gynnwys:

32.1 sut i ddodi cynnyrch pyrmio i'r gwallt mewn modd diogel er mwyn osgoi gwneud y gwallt a chroen y pen yn agored i gemegau

33. yr amseroedd gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol

34. y rhesymau pam y gall bod angen i chi fynd i'r afael â phroblemau all godi yn aml pan yn pyrmio gwallt, i gynnwys:

34.1 ffyrdd y gellir eu cywiro

35. pwysigrwydd ymgynghori gyda'r unigolyn drwy gydol y broses byrmio

36. yr adweithiau niweidiol a gysylltir â gwasanaeth pyrmio a sut i ymateb iddynt

37. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth

38. y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r gwallt i blant dan oed ac oedolion bregus

39. pam ei bod hi'n bwysig trafod gyda a sefydlu amcanion yr unigolyn, ei bryderon, ei disgwyliadau a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun gwasanaeth pyrmio

40. y strwythurau taliadau a'r dewisiadau ar gyfer gwasanaeth

41. y gofynion deddfwriaethol a digollediad ynglŷn â sicrhau cydsyniad gwybodus ar gyfer y gwasanaeth

42. y rhesymau dros gymryd delweddau gweledol gyda chydsyniad o fan triniaeth yr unigolyn, a'u cadw yn unol â gofynion y gwasanaeth, deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol

43. pwysigrwydd cadw at y protocol gwasanaeth pyrmio uwch

44. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth

45. canlyniadau disgwylidig gwasanaethau pyrmio

46. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a'r modd y mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol

47. pwysigrwydd cofnodi canlyniad a gwasanaeth pyrmio a'r gwerthusiad ohono

48. y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y gwasanaeth pyrmio

Cwmpas/Ystod

Dosbarthiad cyrls y gwallt

1. syth
2. tonnog
3. cyrliog
4. cyrls tynn
5. cyfuniad

Nodweddion y gwallt

1. dwysedd y gwallt
2. gwëad y gwallt
3. hydwythedd y gwallt
4. mandylledd y gwallt
5. patrymau tŵf y gwallt

Stad y gwallt

1. gwallt sydd heb ei drin yn gemegol
2. gwallt sydd wedi ei drin yn rhannol â chemegion
3. gwallt sydd wedi ei drin yn gemegol

Profion

1. hydwythedd
2. mandylledd
3. anghydawnsedd
4. prawf gyrl cyn pyrm
5. prawf cyrl
6. prawf croen

Effeithiau pyrmio

1. wedi eu codi o'r gwraidd
2. tonnog
3. troellog
4. cyrl wedi'i wëadu

Cynnyrch

1. hufen rhwystro
2. triniaeth cyn pyrmio

Darparu technegau pyrmio uwch

3. ad-drefnydd cemegol
4. toddiant pyrmio
5. toddiant niwtraleiddio
6. triniaeth ar ôl pyrmio

Protocol gwasanaeth pyrmio uwch

1. amgylchedd waith
2. iechyd a diogelwch
3. atal a rheoli haint
4. cynllun gwasanaeth
5. cydsyniad gwybodus
6. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
7. canlyniadau profion
8. rheoli data
9. archwilio ac atebolrwydd
10. cyfarwyddiadau a chynghor
11. cynaliadwyedd
12. rheoli gwastraff
13. ymarfer wedi'i seilio ar dystiolaeth
14. ymarfer adfyfyriol

Technegau rhannu a chordeddu

1. ardyfol
2. troell
3. gwëad
4. gwraidd
5. esgil
6. cordeddiad dwbl

Cyfarwyddiadau

1. hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau yr unigolyn a'r ymarferydd
2. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl y driniaeth
3. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig
4. triniaethau yn y dyfodol

*

Anatomeg a ffisioleg

- 1. strwythur a swyddogaeth systemau'r corff a'u cyd-ddibyniaeth ar ei gilydd**
- 2. strwythur a swyddogaeth y gwallt a thŵf y gwallt**
- 3. strwythur a swyddogaeth y croen**
- 4. gwrtharwyddion cymharol a llwyr a phatholegau cysylltiedig**

*Patrymau tŵf y gwallt**

1. llyfiad buwch
2. troell
3. coron ddwbl
4. pigyn gweddw
5. cynffon hwyaden

Geirfa

Gwrtharwydd llwyr

Mae gwrtharwydd llwyr yn gyflwr sy'n rhwystro'r gwasanaeth rhag cael ei gyflawni ac a all fod angen cael ei gyfeirio

Adwaith niweidol

**Adwaith niweidiol yw adwaith 'annisgwyl' neu ganlyniad yn dilyn gwasanaeth e.e. llewygu

Anatomeg a ffisioleg

Y ffordd mae'r systemau sgerbydol, cyhyrol, cylchredol, lymffatig, resbiradol, ysgarthol, arogleuol*, **ymylol, treuliol, endocrinaidd a nerfol yn rhyngweithio gyda'i gilydd a sut mae nhw'n effeithio ar yr unigolyn, y gwasanaeth a'r canlyniadau

Gwrth weithred

Gwrthweithred yw adwaith neu ganlyniad 'disgwylidig' yn dilyn gwasanaeth, e.e. erythema

Ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth

Mae ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau gyfredol, ddilys a pherthnasol sydd ar gael.

Cymorth Cyntaf

Gall cymorth cyntaf gyfeirio at gymwysterau cymorth cyntaf yn y gwaith neu ei gyffelyb neu ymwybyddiaeth o gymorth cyntaf iechyd meddyliol

Dosbarthiad cyrls y gwallt

Gellir cyfeirio at ddosbarthiad cyrls y gwallt fel Math 1 – 4.

Protocol

Protocol yw gweithdrefn safonol er mwyn sicrhau arfer gorau a chydymffurfriad pan yn darparu gwasanaethau h.y. dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Gwrtharwydd cymharol

Gwrtharwydd cymharol yw cyflwr sy'n gofyn am asesiad o addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth a/neu os oes angen addasiadau.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKAHDBRBNST1, SKAHDBRBNS1, SKAHDBR1, SKAHD1, SKAHD2 SKAHDBR2, SKAHDBR3, SKAHDBR4, SKAHDBR5, SKAHDBR6, SKAHDBR7, SKAHDBR8, SKAHDBR9, SKAHDBR10, SKAHDBR12, SKAHDBR13, SKAHDBR14, SKAHDBR15, SKAHDB16, SKAHDB19, SKAHDB20, SKAHDB21, SKABR5

Darparu technegau pyrmio uwch

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKACH13
Galwedigaethau perthnasol	Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig
Cyfres/Set	Trin gwallt a barbro
Geiriau Allweddol	pyrmio, cyrllo'r gwallt, gwialenni, cyrl, pyrmio creadigol